**CYMDEITHAS CYMRU-ARIANNIN**

# POLISI PREIFATRWYDD

Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin yn parchu preifatrwydd ein haelodau, ac yn ystyried ein cyfrifoldebau wrth brosesu eich data personol yn fater o bwys. Mae’r polisi hwn yn egluro sut rydym yn casglu gwybodaeth, beth rydym yn ei wneud â'r wybodaeth hynny, sut fyddwn yn ei gadw’n ddiogel, a pha hawliau sydd gennych chi.

Byddwn bob amser yn cydymffurfio â’r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) wrth ymdrin â’ch data personol. Ceir rhagor o fanylion am y GDPR ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth ([www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)).

Rydym yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Polisi Preifatrwydd hwn o bryd i'w gilydd heb rybudd ymlaen llaw. Fe'ch cynghorir i wirio gwefan Cymdeithas Cymru-Ariannin yn rheolaidd am unrhyw newidiadau.

**Sut fyddwn ni’n casglu gwybodaeth?**
Rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch pan fyddwch yn ymaelodi â’r Gymdeithas a’r Clwb Cyfeillion, mewn holiaduron achlysurol, neu drwy gyswllt uniongyrchol at bwrpas penodol.

**Pa wybodaeth fyddwn ni’n casglu, pam fyddwn ni’n ei gasglu, a gyda phwy fyddwn ni’n ei rannu?**
Trwy gyflwyno Ffurflen Aelodaeth neu gwblhau Ffurflen Datganiad Rhodd Gymorth byddwch yn caniatáu casglu, cadw, prosesu a rhannu data personol fel yr amlinellir isod:

| Math o wybodaeth i’w gasglu | Pam fyddwn ni’n ei gasglu? | Wedi'i rannu â... |
|---|---|---|
| Teitl yr aelod, enwau, cyfeiriad, rhifau ffôn, cyfeiriad post/e-bost a ffi aelodaeth flynyddol | • Er mwyn rheoli manylion aelodaeth y Gymdeithas a chynnal cofnodion cywir<br>• Dosbarthu’r Adroddiad Blynyddol<br>• Dosbarthu cylchlythyr<br>• Rhannu gwybodaeth am y Gymdeithas<br>• Dosbarthu Holiaduron | • Ysgrifennydd<br>• Trysorydd |
| Ffurflen Datganiad Rhodd Gymorth | Er mwyn cydymffurfio â gofynion Cyllid a Thollau EF (HMRC) | • Trysorydd |
| Manylion cysylltu aelodau Clwb Cyfeillion - teitl yr aelod, enwau, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost. | Er mwyn cysylltu gyda’r enillwyr | • Trysorydd Clwb Cyfeillion |

**Dim ond pan fo’n rhaid i ni oherwydd gorfodaeth gyfreithiol y byddwn yn datgelu gwybodaeth i drydydd parti neu unigolion, ac ni fyddwn byth yn gwerthu neu logi eich gwybodaeth i fudiadau neu gwmnïau eraill.**

**Sut rydym yn diogelu’r wybodaeth?**
Bydd manylion aelodaeth yn cael storio’n electronig ar gronfeydd data (h.y. storfa gwmwl) a fydd yn caniatáu mynediad i’r Ysgrifennydd a’r Trysorydd yn unig drwy gyfrineiriau. Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin wedi datgan i *Google Cloud* fod cyfraith Diogelu Data Ewropeaidd (GDPR) yn berthnasol, enwi’r Ysgrifennydd fel y Swyddog Diogelu Data, a datgan mai’r Awdurdod Rheoleiddiol neu Oruchwyliol ydy’r Comisiynydd Gwybodaeth y DU.

Bydd unrhyw gopïau papur o'r data'n cael ei ddiogelu mewn cabinet ffeilio dan glo. Pan fyddwn yn cael gwared ar wybodaeth bersonol, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd ddiogel.
Mewn achos annhebygol o dorri diogelwch eich data byddwn yn eich hysbysu yn brydlon.

**Person cyfrifol**
At ddibenion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), yr Ysgrifennydd fydd "rheolwr" yr holl ddata personol sydd gennym am aelodau ac eraill. Yr Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Gymdeithas yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) sy'n berthnasol o 25 Mai 2018. Byddwn yn adolygu'r wybodaeth yn flynyddol er mwyn cadarnhau bod hawl gennym i'w brosesu.

**Pa hawliau sydd gennych chi?**
O dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol(GDPR) mae gennych:

- yr hawl i gael eich hysbysu - rhaid i ni ddweud wrthoch chi sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth
- yr hawl i gael mynediad – gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch
- yr hawl i gywiro – gallwch ofyn i ni gywiro neu ddiweddaru unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch
- yr hawl i ddileu – gallwch ofyn i ni ddileu gwybodaeth sydd gennym amdanoch, gan roi rheswm
- yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- yr hawl i wrthwynebu – gallwch ofyn i ni beidio â defnyddio'ch gwybodaeth ar gyfer marchnata a chyfathrebu

Am fwy o fanylion ynghylch ein harferion prosesu data, neu os hoffech gael copi o'r wybodaeth amdanoch sydd gan y Gymdeithas, anfonwch e-bost at yr Ysgrifennydd **ysgrifennyddCymAr@gmail.com** a byddwn yn ymdrechu i ymateb o fewn 14 diwrnod i'r cais.

**Cywirdeb a chadw data**
Mae pob aelod unigol yn gyfrifol am roi gwybod i'r Ysgrifennydd am newidiadau i'w manylion personol (e.e. cyfeiriad/rhif ffôn ac ati). Bydd y wybodaeth yma yn cael ei adolygu yn flynyddol wrth i chi adnewyddu eich aelodaeth, ac rydych chi bryd hynny yn awdurdodi'r Gymdeithas i gadw data o'r fath ar ffeil.

Bydd y data fel arfer yn cael ei gadw am 7 mlynedd. Mae datganiadau Rhodd Gymorth yn rhan o'ch cofnodion Rhodd Gymorth, a dylid eu cadw am 6 mlynedd ar ôl diwedd y flwyddyn neu'r cyfnod cyfrifyddu sy'n cynnwys y rhodd olaf y maent yn berthnasol iddi, neu o leiaf 12 mis ar ôl i chi wneud cais am y rhodd olaf y maent yn berthnasol iddi.

**Gwledydd eraill**
Ni fydd Cymdeithas Cymru-Ariannin yn trosglwyddo Data Personol i wledydd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) at ddibenion aelodaeth. Dim ond yn y DU (o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) y bydd mynediad gan yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd at y data a gasglwn gan aelodau Cymdeithas Cymru-Ariannin. Mae'r data a ddarperir gennych yn cael ei weld a'i brosesu gan swyddogion Cymdeithas sy'n ddinasyddion y DU yn unig, sef Ysgrifennydd a Thrysorydd Cymdeithas Cymru-Ariannin.

Crëwyd Tachwedd 2024